



Dathlu'n Nawddsant a chroesawu'r Gwanwyn



YN Y RHIFYN HWN...

- ❖ Neges Delwyn
- ❖ Lluniau'r Oedfaon
- ❖ Newyddion a'r Suliau
- ❖ O'r Cwrdd Diaconiaid
- ❖ Datblygiadau
- ❖ Sul y Cyfundeb
- ❖ Erthyglau

(uchod) Y cyfranwyr o'r Ysgol Sul fu'n cynnal yr oedfa Gwyl Ddewi eleni. Ceir rhagor o luniau o'r oedfa honno ar dudalen 5.

(dde isod) Un sydd ddim llawn mor hen â'r nawddsant, yn myfyrio uwch yr 80 cannyll ar ei gacen pen-blwydd. Llongyfarchiadau Huw Llewelyn Davies! A phen-blwydd hapus iawn i bob un o'n haelodau sy'n dathlu'r adeg hon o'r flwyddyn.

(chwith isod)

Oes, mae cloc newydd wedi cyrraedd Bethlehem, un trydan sy'n di-sodli'r un pendil oedd wedi bod yn strancio ers tro. Bydd hwn



yn weladwy i bob cennad. Felly, peidiwch gofidio bydd eich cinio'n gor-losgi. Gyda lwc, daw'r oedfaon i ben mewn da bryd!

A rydyn ni bellach yn gallu mynd ar y we yn y Tŷ Cwrdd – gweler tudalen 2



Suliau Bethlehem hyd wedi'r Pasg

(am 10.30 y bore oni nodi'r yn wahanol)

Dim YS = Dim Ysgol Sul

Mis Mawrth 2025:

- 9 – Oedfa Gymun dan ofal Eirian Dafydd
- 16 – Sul y Cyfundeb (yn y Tabernacl, Efail Isaf am 11:00 a.m.)
- 23 – Oedfa dan ofal Aelodau gorllewin Caerdydd
- 30 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel

Mis Ebrill 2025:

- 6 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
- 13 – Oedfa dan ofal y Cwrdd Merched **[Dim YS]**
- 18 – Gwasanaeth Bore Gwener y Groglith
(am 10:00 a.m.)
- 20 – Sul y Pasg – I'w gadarnhau **[Dim YS]**
- 27 – Cyflwyniad Cerddorol: "Gorffennwyd" gan Gôr y Capel ac eraill (am 6.00 p.m.)

Newyddion Bethlehem

COLLI

Mrs Ann Williams



Trist yw cofnodi fod ein haelod hynaf wedi'n rhagflaenu. Ar y 4ydd o Orffennaf y llynedd, roedd Mrs Ann Williams, o'r Eglwys Newydd, yn 100 oed. Bu hi, a'i diweddar briod, Glyndwr, yn gymaint o gefn i'r achos ym Methlehem. Bu'n bresennol mewn oedfa ar drothwy ei chanfed pen-blwydd.

Rydyn ni'n anfon ein cofion at yr holl deulu ac yn parhau i gofio teyrngarwch Ann i'r Tŷ Cwrdd ym Methlehem.

Diolch hefyd i'n cyd-aelodau fu'n cynorthwyo Ann i allu mynychu Bethlehem a'i chadw mewn cysylltiad â'n gweithgareddau ar hyd y blynyddoedd diweddar.

CYDYMDEIMLO

Rydyn ni hefyd yn estyn ein cofion at y canlynol, sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:

- Rachel Garside a'r teulu, Gwaelod-y-garth. Bu farw David, tad Rachel, yn Llanidloes.
- Huw Lloyd a'r teulu, Radur. Bu farw David, brawd Huw, yn Felin-foel, Llanelli.
- Eifion Glyn a'r teulu, Pentyrch. Bu farw Tabitha, chwaer Eifion, ym Mhenygroes, Gwynedd.

Croeso i'r

Babanod newydd

Llongyfarchiadau i Gwyneth Lewis ar ddod yn fam-gu unwaith eto yn dilyn geni'r efeilliaid Lili Mair a Cai Morgan. Danfonwn ein dymuniadau gorau a'n llongyfarchiadau hefyd at Karen ac Owen, y rhieni balch.

Ac y mae Glenys ac Anthony Evans yn hen fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf. Dyma Ceiri Sion Gruffudd Ifans, mab i Nannon a Ianto, gor wŷr i Anthony a Glenys mewn siwmpwr wedi ei gwneud gan Medi a Glenys.



Y Rhyngrwyd:

O'r diwedd, ar ôl mynych addewidion, llwyddodd peirianwyr i ddringo'r polyn tu fas i Fethlehem a'n cysylltu gyda'r rhyngrwyd. Bellach mae modd i ni fanteisio ar y we-fyd-eang gydag ein hoffer cyfrifiadurol yn y capel a'r festri. (Y cyfrinair ydy: **tycwrddbethlehem**). Diolch i Wyn Jones am ei amynedd gyda'r darparwyr ac am ei arbenigedd digidol a'i ofal dros ein presenoldeb ar wefan Bethlehem, sef: www.bethlehem.cymru

Rhagor o Newyddion Bethlehem

Byrddau a chadeiriau hwylusach



Fe fyddwch yn falch o ddeall bod Cyfundeb De-ddwyrain Cymru wedi cytuno i gais a wnaethpwyd ar ran Bethlehem, Gwaelod-y-garth, i ddiweddarau'r dodrefn sydd yn cael eu defnyddio yn y Festri.



Yn y Cwrdd Chwarter, a gynhaliwyd nos Fercher y 5ed o Fawrth 2025, daeth cadarnhad bod swm o £5000 wedi ei glustnodi dan gynllun Nawdd y Cyfundeb er hwyluso defnydd a diogelwch o fewn y Festri. Bydd y gwariant arfaethedig, i gynnwys seddau a byrddau newydd, yn agos at £10 000.

Mae'r cadeiriau presennol yn debygol o fod o ddefnydd i Gapel ym Mhontypridd, ond go brin y bydd modd ail-gylchu'r byrddau at unrhyw ddefnydd amgen.

Cydnabyddir gyda diolch y nawdd yma oddi wrth Gyfundeb De-ddwyrain Cymru (enw swyddogol newydd yn dilyn cyfuno Cyfundebau Dwyrain Morgannwg a Chyfundeb Gogledd Morgannwg.)

Diwedd y Flwyddyn Ariannol

Mae ein blwyddyn ariannol yn dod i ben ar Ebrill 5. Os hoffech chi wybod faint ydych chi, fel aelod neu deulu, wedi ei gyfrannu dros y flwyddyn at achos Bethlehem, yna mae'r ateb yn syml.

Holwch ein trysorydd, Peredur (Pwt) Evans drwy anfon e-bost ato ar:
trysoryddbethlehem@gmail.com

Mae pob cyfraniad yn werthfawr a diolch i bawb sy'n cyfrannu at barhad Bethlehem

COFIWCH!

“GORFFENNWYD”

Mae'r ymarferion wedi cychwyn ar gyfer perfformio'r gwaith cerddorol hwn gan Eilir Owen Griffiths.

**Cyflwynir y gwaith am 6.00 yr hwyr
Nos Sul Ebrill 27**

Neges o'r "Front Line"

Sdim dwywaith, mae derbyn neges o'r "Front Line" yn ystod unrhyw ryfel yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan deuluoedd y milwyr, ac yn ystod Sul y Cyfundeb yn Efail Isaf yn ddiweddar fe werthfawrogwyd neges gan un sydd ar y "Front Line" ym Mhalestina ar hyn o bryd. Fe draddododd Geraint Rees weddi a ddanfonwyd ato yn arbennig ar gyfer yr oedfa gan Daoud Nassar, Cristion o Balestiniad yw Daoud, sydd o dan fygythiad parhaus gan fyddin ac ymsefydlwyr anghyfreithlon Israel sy'n daer am ddwyn ei dir. Mae wedi colli rhannau helaeth o'i dir yn barod, ac wedi gweld rhai o'i goed olewydd yn cael eu tynnu o'r pridd, ac mae'n cael ei figwth â chyfraith a gwaeth, yn wythnosol, am ei fod yn byw a ffarmio lle mae. Enw ei ffarm yw "Pabell y Cenhedloedd" ac ar garreg wrth fynedfa'r ffarm mae'r geiriau hyn - "Gwrthodwn gasáu, gwrthodwn anobeithio, gwrthodwn ffoi, gwrthodwn fod yn elynion." Geiriau rhyfeddol ag ystyried ei sefyllfa, ac isod fe welwch y weddi arbennig a ddanfonodd atom ni i'w darllen yn y Cyfundeb, gweddi bydd rhai ohonoch wedi'w chlywed, ond gweddi sy'n werth ei hail adrodd yma ar dudalennau'r Gair Bach:

"Pan fyddaf yn teimlo'n rhy fach i wneud gwahaniaeth, Dduw, rho'r nerth i mi gofio beth yw grym un morgrugyn bach.

Pan fyddaf yn teimlo'n rhy ddi-nod, Dduw, atgoffa fi o'r hyn all ddod o'r hedyn mwstard lleiaf.

Pan fyddaf yn teimlo bod angen i fi fod yn fawr ac yn gryf cyn y gallaf wneud gwahaniaeth, Dduw, atgoffa fi mai bod yn ffyddlon, dewr a chariadus oedd ffordd Iesu Grist.

Pan fyddaf yn teimlo na allaf wneud unrhyw beth am nad wyf yn berffaith, atgoffa fi mai bod yn ffyddlon i ewyllys cariad sydd yn bwysig. Dyw'r byd hwn ddim angen geiriau gwag gan y perffaith, ond ffyddlondeb at gariad a chyfiawnder gan filiynau o bobol amherffaith.

Dwi ddim yn rhy fach, nac yn rhy dew, ddim yn rhy swil na rhy swnllyd, ddim yn rhy wan na'n rhy eiddil i wneud gwahaniaeth wrth ddilyn ffordd Iesu Grist.

Gwrthodaf gasáu, gwrthodaf anobeithio, gwrthodaf ffoi, gwrthodaf fod yn elyn i neb.

Gyda'n gilydd, safwn yn gryf. Safwn yn effro i gydweithio er daioni. Safwn mewn cariad. Safwn, wrth gerdded yn ôl traed yr Iesu.

Amen.

A dyma gynrychiolaeth Bethlehem (a rhai o'u cydgyfranwyr) yn yr oedfa ar Sul y Cyfundeb yn Efail Isaf: Eilir a'i gôr, Marged Sion, Ynyr Brigyn a Delwyn, Rhodri-Gwynn ac Eilir fel unawdydd. A diolch i Delwyn am dynnu'r cyfan ynghyd - roedd yn brofiad a hanner a'r Tabernacl yn llawn.



Cofiwch fod modd ail-edrych ar y mwyafrif o'n hoedfaon ar ein gwefan ac ar rai o'r cyfryngau cymdeithasol eraill. Mae'r oedfa hon i'w chael yn rhwydd ar <https://youtu.be/CMx78cEJUEI>. Diolch i bawb fu ynghlwm wrth y trefniadau eto eleni. Roedd llai nag arfer o'n haelodau ifanc ar gael ar Fawrth 2 am ei fod yn cyd-daro â diwedd hanner tymor yr ysgolion. Fe wnaeth rhai o'r isod hyd yn oed lanw bwlch ar fyr rybudd, a hynny'n llawen a chaboledig! Diolch hefyd i Heulwen am ei harweiniad ac anerchiad.



OEDFA RADUR

Chwefror 16 2025

Mae'r oedfa hon i'w chael ar wefan Bethlehem ac ar y cyfryngau cymdeithasol - dyma'r linc:

<https://youtu.be/rwj2ERYITMo>



**BETH AM I CHI
ANFON
GAIR BACH
ATON NI?**

Mae pob erthygl neu bwt byr o newyddion yn help i'n cadw i lanw'r colfnau hyn.

Anfonwch at:
tycnau@aol.com



**RHAGOR
O
OEDFAON**

ar y
dudalen
nesaf.

DYMA NHW



Y Parchedig Denzil John
19 Ionawr



Y Parchedig Dafydd Owen
Chwefror 2



Y Parchedig Robert Owen
Griffiths, Ionawr 26



Marc John Williams
Chwefror 23



Delwyn Sion
Chwefror 9

Dyma'r dolenni cyswllt i rai o'r uchod:

Parch. Denzil John:

<https://youtu.be/hCyyOLqJufk>

Parch. Dafydd Owen:

<https://youtu.be/XmPi3zQ44As>

Parch. Robert Owen Griffiths:

<https://youtu.be/nvOOq1pfHbA>

Delwyn Sion:

<https://youtu.be/Hgu7dpHCuTo>



Eirian Dafydd yn swyno a
chonsurio - Mawrth 9

Fodd bynnag, ni fyddai cofnod o'r oedfaon yn gyflawn heb nodi cyfraniad y rhai fu'n darllen emyn y plant yn ddiweddar. Dyma nhw! Diolch i bob un.



BORE GWYL DDEWI



Detholiad o drafodion

Y Cwrdd Diaconiaid

16eg o Chwefror 2025

1. Croesawyd Paul Garside i'w gyfarfod cyntaf ymysg y Diaconiaid, gan ddiolch iddo am yr hyn y mae ef (a Rachel) eisoes wedi ei wneud wrth fod a gofal am drefnu'r Suliau ar ran y Capel.
2. **Nodwyd fel a ganlyn:-**
 - a) **Oedfaon, Aelodaeth, Elusennau, a materion ariannol:**
 - Dylid gwahodd yr aelodaeth i ystyried ychwanegu at rengoedd y Diaconiaid.
 - Derbyn aelodau newydd – nodwyd bod cyfle i gynnwys nifer o fynychwyr rheolaidd fel cyflawn aelodau ym mis Ebrill 2025.
 - Oedfaon Dementia-gyfeillgar – nodwyd y bwriad i gynnwys oedfaon yn ystod y flwyddyn, fyddai'n dilyn y canllawiau yn "Llawlyfr Creu Eglwysi Dementia-gyfeillgar".
 - Awgrymwyd y byddai'n dda adfer y drefn o gael cymorth y plant i hel y casgliad, ac hefyd rhai o'r aelodau, yn eu tro, i fod o gymorth i rannu'r cymundeb.
 - Trafodwyd treialu patrwm y Tabernacl, Efail Isaf, o gynnal ambell oedfa yn y prynhawn, yn achlysurol, er ceisio denu rhaiant ifanc a'u plant i'r capel.
 - Nodwyd bod y "Bore Coffi a Chlonc" yn y Festri, ar y trydydd bore lau yn y mis, wedi bod yn llwyddiant.
 - Mynegwyd diolch i Ifan Roberts am sicrhau cyhoeddi 50 rhifyn o "Gair bach Bethlehem".
 - Byddai cynnwys "Archif" y Capel (gweler: www.bethlehem.cymru) yn ehangu yn fuan.
 - Byddid yn adolygu'r sefyllfa ynglyn a gofynion "Diogelwch Plant ac Oedolion Bregus" ar ddechrau 2025.
 - Dewis elusen ar gyfer 2025/27 – bydd cyfle i ddewis elusen leol i'w chefnogi o fis Medi 2025 hyd at Gorffennaf 2027. Byddid yn ymgynghori a'r aelodaeth yn gynnar yn y gwanwyn..
 - 'Roedd cyfle i berthynas agosach ddatblygu rhwng Canolfan y Drindod, Caerdydd, a'r Capel..
 - Bod cyfarfod gyda cefnogwyr "Plan International" i'w drefnu.
 - Mynegwyd diolch i Ian ac Ann Hughes am gyd-lynu darpariaeth "Te yn y Tabernacl / Canolfan Glyd" ar ran Bethlehem).
 - Nodwyd, gyda diolch, bod cyfraniadau i'r Banc Bwyd yn parhau ar Sul cyntaf y mis.
 - 27fed o Ebrill (6:00 p.m.) – Cyflwyniad Cerddorol gan Gôr y Capel, ac eraill, - "Gorffennwyd" (Eilir Owen Griffiths) Byddai casgliad ar gyfer Cymdeithas Alzheimer Cymru (yr olaf fel rhan o'r ymgyrch bresennol).
 - Nodwyd bod Cyfrifon 2023/24 yn cael eu gwirio gan Wyn Jones a Lowri Clement.

- Nododd y Trysorydd ei fod yn awyddus i ystyried agor cyfrif buddsoddi ychwanegol ar ran y Capel, a fyddai'n cael ei ddiogelu dan gynllun yr FSCS, a fyddai'n dilyn polisi buddsoddi moesol, ac angen o leiaf dau lofnod i ddelio ag unrhyw drosglwyddiadau..

b) Adeilad a chyfarpar:

- Dodrefn hygrych ar gyfer y Festri – bod cais am gymorth ariannol wedi ei gyflwyno i Gyfundeb Deddwyrain Cymru. Trafodwyd yn ogystal y modd gorau o ymwared a'r dodrefn presennol.
- System oleuadau hwylus / camera sefydlog, ar gyfer y Capel – dan drafodaeth (cymorthdaliadau posibl o du Undeb yr Annibynwyr (neu Gronfa Pantyfedwen)?).
- Canllaw o gyntedd y Capel i'r Galeri – opsiynau yn cael eu hystyried.
- Cwblhau'r canllaw yn y Galeri – dan ystyriaeth
- Arolwg cyflawn o'r Capel a'r Festri yn unol a'r "Heulwen Dan Gwmwl" (Creu eglwys Dementia-gyfeillgar") - i'w gwblhau
- Cyflwynwyd "Adroddiad Blynyddol 2024" i'r Ymddiriedolwyr (*gweler y rhifyn hwn o'r Gair Bach.*)
- 'Roedd Wyn Jones a Peredur Evans yn y broses o drefnu darpariaeth gwe ar gyfer y Capel a'r Festri.
 - Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o greu gardd flodau / llysiau ynghyd a system dal dwr glaw ar lawnt y Capel. Byddai hyn yn gydnaws a gofynion Eco-eglwys,
- Bu'n rhaid atgyweirio drws y Boeler-dy yn dilyn yr anfadwaith pan dorrwyd i mewn i'r Capel / Festri ddiwedd y flwyddyn diwethaf.
- Bod cloc newydd wedi ei osod yn y Capel.
- Bod cyhoeddi hanes y Capel ar ffurf llyfryn yn dal dan ystyriaeth

Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd

Cylch Cadwgan

Noson Bethlehem

Beibl Peter Williams

Rh-G J



Tro Bethlehem oedd rhoi cartref i Gylch Cadwgan ym mis Ionawr 2025. Y gwstai arbennig y tro yma oedd Eurig Davies, ai ddewis bwnc oedd “Peter Williams a'i Feibl – arwr cenedlaethol neu heretic?”


Fe aned Peter Williams yn sir Gaerfyrddin yn 1723, a chafodd dröedigaeth yn dilyn gwrando ar bregeth gan George Whitfield yn 1743. Gwrthodwyd ei urddo'n offeiriad oherwydd ei Fethodistiaeth, a daeth yn ei dro yn un o arweinwyr y mudiad Methodistiaidd yng Nghymru.

Prif waith ei fywyd oedd cyhoeddi



Eurig Davies gyda chopi o Feibl Peter Williams oedd ym meddiant y teulu

argraffiadau o'r Beibl gyda sylwadau ar bob pennod. Cafodd ei ddrwgdybio o goleddu Sabeliaeth* oherwydd ei esboniad ar Ioan 1:1, a chafodd ei ddiarddel yn sasiwn Llandeilo Fawr yn 1791. Treuliodd weddill ei oes yn dadlau'n chwerw a'r Methodistiaid. Bu farw yn 1796.



*Sabeliaeth: Diwin. Athrawiaeth Sabellius, diwinydd Affricanaidd o'r 3g. O.C., a ddaliai nad yw tri pherson y Drindod ond yn agweddau neu foddau ar y Bod Dwyfol:



Hwyl Fawr, Honda

Rhys Powys

Fydda i ddim yn cerdded mewn i'r capel, rhoi yr helmed arian, drom ar silff y ffenest, plygu'r menig a gosod y got felen dan y sêl yn y gornel y tu hwnt i'r piler... am sbel fach 'ta beth. Mae'r beic modur wedi'i werthu ac rydw i wedi ymuno â'r parchusion syber sy'n cyrraedd y capel mewn car. "Pan euthum yn ddad-cu..." daeth yr amser i roi heibio y pleser bachgennaidd hynny o reidio beic modur pwerus a swnllyd - rhywbeth y bûm yn ei wneud am dros ddeugain mlynedd!


Kawasaki Z200 oedd y beic cyntaf i fi ei brynu, (**uchod**) a hynny yng Nghaerdydd, pan oeddwn yn fyfyrwr yn Aberystwyth. Ar ôl prin chwarter awr o ymarfer, ar feic modur ffrind i fi, fe benderfynais mai'r peth doeth i'w wneud oedd reidio'n syth i Aberystwyth gan ddsygu fy hunan sut oedd y beic yn gweithio ar y ffordd! Gwallgofrwydd! Gwiriondeb llwyr llencyndod, a hynny pan oedd modd reidio â phlatiau "L", ar feic hyd at 250cc, heb fod wedi ymhél ag unrhyw fath o hyfforddiant o gwbl. Dwi'n cofio stopio mewn 'lay-by' tua Ponterwyd i edmygu fy meic newydd, ac edmygu fy hun, cyn rollo'n fuddugoliaethus dros Bont Trefechan! Ha ha! Y fath ryddid!

Trefnu gwersi reidio fu'n rhaid wedyn cyn wynebu dau brawf - un yn Aber a'r llall yn Llambod, o bob man. Dwi'n cofio mynychu'r swyddfa brawf yn Aber a'r swyddog y tu ôl i'r ddesg yn gofyn am fy enw llawn. Finne'n ateb gyda'r enw oedd ar fy nhrwydded - "Rhys Evans". Edrychodd yn syn, braidd, yna gofyn "And what's your name?" "Rhys Evans" medde fi eto. Fe sgriblod e rhywbeth yn frysiog ar ei ffurflen. "Right, I've got that. Now what's your name?!" Roedd e'n dechre mynd yn flin. Fe edryches i ar y ffurflen ac, yn lle sgwennu 'Rhys Evans' roedd y clown wedi sgwennu "777"... (three sevens)!!

Ta waeth, fe basiwyd y profion a dyna agor y drws ar flynyddoedd hapus iawn o reidio y Z200 yn gyson rhwng Bangor, Aber, Casnewydd ac o gwmpas Llundain yn ystod fy nghyfnod yno. Doedd y peiriant 200cc ddim yn arbennig o gryf a dwi'n cofio'n iawn cael fy hyrddio gan y gwynt wrth i'r "convoys" lorïau cario glo, gyda cheir heddlu yn eu gwarchod, hedfan heibio ar yr M4 yn ystod streic y glowyr. Ond roedd petrol yn rhad, Llundain yr 80au yn ddinas gyffrous a beic modur yn ffordd wych o wibio yma ag acw - a'r siaced ledr goch oedd y pilyn mwya' "cool" erioed! Fe benderfynodd fy ffrind a minnau, yr un ffrind roddodd fenthg ei feic i fi ymarfer am y tro cyntaf, y gallen ni safio arian trwy roi gwasanaeth i'r hen Gwasaki heb orfod mynd â fe at fecanic go iawn. Fe dynnwyd y peiriant silindr sengl yn ddarnau, a'i roi nôl at ei gilydd yn bur daclus, chwarae teg... ond fuodd y beic bach du byth cweit yr un peth. Aeth yn annibynadwy, a finne'n treulio mwy o amser yn teithio tramor, felly daeth oes y Kawasaki bach i ben. Do, fe syrthiais oddi arno unwaith, gan dorri fy ngarddwrn a gorfod cwblhau fy arholiadau gradd â braich mewn plaster, ond un digwyddiad bach dibwys oedd hwnnw o'i gymharu â'r oriau di-fesur o hwyl gafodd y "Kwaker" bach a finne yng nghwmni'n gilydd yn fflîo o gwmpas y West End, a lonydd gwyrddion Cymru ym mhob tywydd. Roedden ni'n deall ein gilydd. Roedden ni fel un. Gyda deigr yn cronni yn fy llygad, wrth i fi ddweud ffarwel wrth fy hen ffrind, bu'n rhaid i fi ei wthio at y 'dealer' lleol - roedd y beic bach yn gwrthod tanio o gwbl erbyn hyn. "Under neon loneliness, motorcycle emptiness" fuodd hi wedyn.

Dros y blynyddoedd fe fues i'n berchen ar Suzuki Bandit 600 coch, Honda CBF 600 du (fy ffefryn!) a'r Honda NC700 arian oedd gen i tan yn ddiweddar. Efallai y byddwch yn cofio eu gweld wedi parcio tu hwnt i'r giât ym maes parcio'r ysgol ar fore Sul. Ond 'y mae amser i bob peth' a gyda'r newidiadau teuluol diweddar bu'n rhaid rhoi'r gorau i fywyd ar ddwy olwyn rwber. Roedd y beic 700cc pwerus yn cael trafferth cadw at y cyfyngder o 20 milltir yr awr ym mhob man - a does dim hawl rhoi sêl babi ar gefn hen Honda, am wn i.

Cofiwch, os dewch chi i Fethlehem rhyw fore a gweld coblyn o Harley-Davidson mawr, hyll, swnllyd yn rhefru mewn i'r maes parcio yna fe fyddwch chi'n gwybod, cyn cyrraedd y capel, fod y rhod wedi troi unwaith eto!!



Rhys a'r Suzuki

Delwyn a'r Dylanwadau

Ann Lewis



Braf oedd cael croesawu Delwyn Sion fel siaradwr i'n cyfarfod mis Chwefror.

Cawsom sgwrs ddiddorol iawn ganddo yn sôn am ei hoff bethau â'r pethau oedd wedi dylanwadu ar ei fywyd.

Yn amlwg mae cerddoriaeth o bob math wedi bod yn bwysig iawn iddo - o'i gyfnod yn yr ysgol Sul, Ysgol Rhydfelen, Prifysgol Aberystwyth-tan heddi. Cawsom glywed ei hoff ddarn clasurol-5^{ed} Concerto (nid symffoni!!) Beethoven.

Mae llyfrau wedi chwarae rhan bwysig hefyd, a soniodd am nifer o awduron sy' wedi dylanwadu arno - o lyfrau 'Wind in the Willows' 'Pride and Prejudice' i weithiau D.J. Williams, T.Rowland Hughes a Dylan Thomas,-yn enwedig 'Under Milk Wood'/Dan y Wenallt.

Hoff Gerdd?

Bu Gerallt Lloyd Owen, Rhydwen Williams, Gwilym Tilsley ac eraill yn ddylanwadau arno, ac o blith y beirdd mwy cyfoes mae Gruffudd Eifion Owen yn ffefryn.

Wrth gwrs, roedd rhaid sôn am ei gefnder Max Boyce, a'r ffordd roedd ef yn llwyddo i gyfleu hanes a diwylliant ei ardal - y gymdeithas, y rygbi a'r capel mewn ffordd ddoniol ac effeithiol.

Dangosodd i ni hefyd un o'i hoff luniau - gwaith gan yr arlunydd Ian Faulkner. Mae'n lun o ddyn yn edrych ar biano. Ysbrydoliaeth i Delwyn!

Ni fyddai sgwrs gan Delwyn yn gyflawn heb gân, ac ar ddiwedd y cyfarfod canodd 'Nwy yn y Nen' er cof am ei ffrind annwyl Dewi 'Pws' Morris. Diolch yn fawr, Delwyn, am brynhawn difyr iawn.

Byd Ilyfrau Shân Osborne

Ann Jones

Cafodd y Cwrdd Merched brynhawn difyr, fel arfer, yng nghwmni Shân Osborne y mis hwn. Unwaith yn rhagor fe rannodd ei dewisiadau hi o lyfre 'da' i'w darllen a'u mwynhau.

A dyma restr Shân y tro hwn:

Little boy lost....	Margarita Laski
Year of Wonders...	Geraldine Brooks
Horse...	Geraldine Brooks
A prayer for Owen Meany	John Irving
When God was a rabbit....	Sarah Winman
Still Life....	Sarah Winman
The Only story....	Julian Barnes
Tell me Everything....	Elizabeth Strout
Safe Keep....	Yael Van der Wouden
Boy with a Topknot....	Sathnam Sanghera
Ordinary Thunderstorms...	William Boyd
Nelan a Bo...	Angharad Price
Y Morfarch Arian...	Eurgain Haf



Ewch allan i'ch siop lyfrau lleol neu i'r llyfyrgell i ddarganfod byd o ddychymyg. Joiwch y darllen!

Manylion y Safle:

- a) **Cyfeiriad:** Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, Main Road, Gwaelod-y-garth. CF15 9HH
- b) **Statws:** Adeilad Cofrestredig - Gradd II – Rheswm dros ei Gofrestru: Mae'n cael ei nodi fel enghraifft o Gapel a adeiladwyd yng nghyfnod canol/hwyr yr 19 Ganrif sydd wedi cadw y rhan fwyaf o'i ddelwedd gwreiddiol, tu allan a thu fewn; hefyd fod gwerth lleoliad grwp iddo gydag adeilad yr Ysgol gyferbyn. Mae'r Capel o fewn Ardal Gadwraeth Gwaelod-y-garth.
- c) Mae safle y Capel wedi ei gofrestru ar y Gofrestr Tir (Land Registry) dan gyfeirnod: WA733156
- ch) Mae'n Adeilad Cofrestredig (Rhif Priodas: 14373) hefyd ar gyfer cynnal priodasau yn unol ag Adran 43 a 43B o Ddeddf Priodasau 1949.
- d) Derbyniwyd Tystysgrif Efydd EcoChurch yn 2023 – mae'r Elusen bellach wedi datgan eu bod am i bawb adnewyddu eu targedau, a bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r gofynion rheini.
- dd) Yn ystod 2023, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i ddathlu 150 o flynyddoedd ers agor yr adeilad presennol.
- e) Ers mis Chwefror 2025, gellir derbyn y we yn y Capel a'r Festri (cyfrinair: **tycwrddbethlehem**).

Gwefan y Capel: www.bethlehem.cymru

Cyfrif **Bluesky** y Capel: **@tycwrddbethlehem.bsky.social**

Rhestr Ymddiriedolwyr:

Huw Llywelyn Davies

John Evans

Peredur Evans

Dylan John

Alwyn Harding Jones

Rhodri-Gwynn Jones

Adroddiad:

1. Yn ystod y cyfnod pan oedd "Coronavirus" wedi creu argyfwng trwy wledydd Prydain a'r byd tu hwnt (2020 – 2021), cytunwyd (cyfarfod wedi ei gynnal ar Awst y 5ed 2020) y byddai Diaconiaid Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn gweithredu cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr mewn materion yn ymwneud a iechyd a diogelwch, ac a byddent bryd hynny yn gwneud penderfyniadau ynglyn ag ail-agor y Capel wedi cyfnod y "Clo".

"Y Diaconiaid a'r swyddogion sy'n gyfrifol am weithredu yn yr adeilad ac sydd hefyd yn dal y cyllid angenrheidiol i ariannu'r gwaith a nodwyd yn yr asesiad risg h.y. arian refeniw,

Yr unig arian sydd ar gael i'r Ymddiriedolwyr yw arian cyfalaf, a dim ond i ariannu gwaith cyfalaf i'r adeilad y gellid ei ddefnyddio.

Ar sail y farn honno cytunodd yr Ymddiriedolwyr i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal yr asesiad risg, ac ailagor yr eglwys, i'r Diaconiaid."

[Gweler: Cofnodion Cwrdd Diaconiaid Bethlehem, Gwaelod y Garth, Bore Llun 26ain o Awst 2020 (ar Zoom)]

2. Mae'r drefn hon wedi ei mabwysiadu a'i gweithredu byth ers hynny, er na chyfarfu'r ddau gorff yn ffurfiol gyda'u gilydd i adolygu'r sefyllfa.

3. Cofnodir isod yr hyn sydd wedi ei wneud yn enw'r Ymddiriedolwyr ers y cyfnod y Clo".

· Manteisiwyd ar y cyfle i baentio'r seddau, ar y llawr isaf a'r galeri, a'r pwlpudd oddi mewn y Capel (ar gost o £4200 yn 2023/24).

· Gosodwyd boeleri newydd i wresogi'r Capel yn 2019 ac yr un modd yn y Festri yn 2020 ar gost o £5269.

· Newidiwyd y goleuadau allanol sy'n arwain ar hyd y llwybr tua'r Festri, gwnaed peth gwaith trydanol oddi mewn i'r Festri, ac archwiliwyd y system drydanol gan yr contractiwr: y cyfan ar gost o £708. **(parhad ar y dudalen nesaf)**

· Gwnaed newidiadau i'r canllaw sydd ar flaen y galeri er sicrhau cydymffurfio a'r Rheoliadau Adeiladu presennol ar gost o £808 yn 2023/24.

(Ond nodwr nad yw'r gwaith a wnaethpwyd yn llwyr ymateb a'r gofynion rheini, a bydd angen ychwanegu at y ddarpariaeth gyferbyn a'r grisiau yn y galeri. Bydd angen paratoi cynlluniau i'w trafod er ymateb i hynny.)

· Mae'r borfa o amgylch y Capel a'r Festri yn cael ei dorri yn achlysurol yn ystod y tymor tyfu (ar gost o £100 yn 2023/24), ac mae'r coed sy'n ffinio tiriogaeth y Capel a chefn y Festri hefyd wedi eu tocio yn ystod y cyfnod diweddar (ar gost o £800 yn 2023/24)

· Gwnaed mân waith atgyweirio i'r llwybrau a'r canllawiau tu allan i'r Capel ar gost o £606.

· Mae Chubb yn archwilio offer atal tân yn y Capel a'r Festri yn flynyddol (ar gost o £347 yn 2023/24 pryd oedd angen cyfnewid hylifoedd).

· Mae canllaw wedi ei osod ger drws allanol y Festri er hwyluso mynd a dod.

4. Yn ychwanegol at yr uchod:-

· bydd angen ystyried diweddarau'r goleuadau sydd yn nenfwd y Capel, er hwyluso newid y bylbiau pan fo angen, ac er sicrhau iechyd a diogelwch y sawl fydd yn ymgymryd a'r dasg.

· Bwriedir ychwanegu canllawiau priodol er sicrhau hwyluso mynediad o gyntedd y Capel i'r galeri ac mae paratoi cynllun briodol eisoes ar waith.

· Derbyniwyd gohebiaeth, dyddiedig 9/01/2023, oddi wrth Gyngor Cymuned Pentyrch (fel tirlfeddianwyr), dan ddeddf "Mines & Quarries Act 1969 (Part11): Maintenance of Disused Tips" yn nodi bod tip glo wedi ei leoli ar y tir uwchben y capel. y "Capel Bethlehem Coal Level, Tip B".

Mae'r llythyr yn cadarnhau bod y Cyngor Cymuned, fel tirlfeddiannwr, yn gyfrifol am archwilio, monitro, ac gwneud unrhyw waith diogelu angenrheidiol petae'r tip yn bygwth yr adeiladau gyferbyn. Maent hefyd yn cadarnhau nad oes awgrym o unrhyw symud yn y tip ar hyn o bryd.

Ymddengys bellach bod y tip glo yn cael ei adolygu yn amlach (Categori D yn hytrach nag C) yn unol a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

5. Mae adeilad y Capel a'r Festri wedi eu hyswirio am y flwyddyn gyfredol (2025/26), gyda Congregational Integra Insurance Solutions Ltd, ar gost o £1664.

6. Costau Sefydlog cynnal y Capel a'r Festri yn 2023/24 oedd fel a ganlyn:- Glanhau - £1039; Dwr - £270; Trydan - £1767; Nwy - £3238.

7. Paratowyd dogfen "Polisi Iechyd a Diogelwch y Capel", ond mae angen ei diweddarau er sicrhau cydymffurfiaid yn unol a'r Rheoliadau diweddaraf.

8. Yn anffodus, ym mis Tachwedd 2024, bu lladron ar ymweliad a'r adeilad, gan dorri drwy ddrws y boelerdy a malu ffenestr fychan sydd ger y fynedfa fewnol o'r Capel i'r Festri. Ni wyddom am unrhyw beth a ddygwyd, ond bu'n rhaid atgyweirio'r ffenestr.

Cafodd y digwyddiad ei gofnodi gan yr Heddlu. Gosodwyd gwydr newydd yn y ffenest a chryfhau'r drws y torrwyd trwyddo.

9. Yn Rhifyn 59: Hydref 2024, o "Dyma'r Undeb", mae Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, yn ei golofn dan y teitl "Edrych ar ein sefyllfa", yn codi nifer o gwestiynau, yn eu plith y canlynol, sydd o ddiddordeb i'r Ymddiriedolwyr ac i'r Swyddogion:-

Llywodraethiad Eglwys:

· A yw Dogfen Ymddiriedol (Trust Deed) yr eglwys ar glawr a chadw? Ym mhle? A yw ei chynnwys yn hysbys i'r aelodau ac yn arbennig i'r swyddogion a'r ymddiriedolwyr?

· A oes gennym ddigon o Ymddiriedolwyr i gyfarfod a gofynion y Ddogfen Weithredol a'r gyfraith? A yw eu penodiad wedi ei gofnodi'n gyfreithiol?

· A ydym yn cyfarfod yn llawn a gofynion sy'n ymwneud yn benodol a'r adeiladau a'r eiddo, materion fel yswiriant, cynnal a chadw?

[Adroddiad 11/02/2025 - addaswyd i'r Gair Bach 04/03/2025]